# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN03:

- **Papur a Chardbord**

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN03<br>Papur a Chardbord | |
|---|---|
| Man creu | Amrywiol |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 20 01 01 |
| Math | Nid yw'n beryglus o gwbl |
| Dull gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o fin/bag | Bin dwbl, neu pedwarplyg / bag clir |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**20 01 01** - Papur a Chardbord

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n creu deunyddiau gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff i'w holl ffrydiau er mwyn lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu.. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu yn y tarddle a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid i ddeunyddiau megis papur, metel, plastigion a gwydr gael eu casglu ar wahân os yw'n angenrheidiol i annog ailgylchu ansawdd uchel o'r deunydd.

Yn ogystal, ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n berthnasol i bob busnes yng Nghymru. Mae'n ofyniad cyfreithiol i wahanu gwastraff dan y rheoliadau canlynol: Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

## Eitemau

Mae eitemau papur a chardbord sy'n addas i'w hailgylchu yn cynnwys:

- Papur a cherdyn sgrap
- Bocsys cardbord gwastad
- Hen gylchgronau, llyfrynnau a phapurau newydd

Dylai papur a chardbord gael eu gwaredu yn y biniau papur/cardbord pwrpasol yn unig (sydd yn aml yn rhan o "finiau gwastraff dwbl a phedwarplyg" safonol y Brifysgol. Cysylltwch â'r tîm Cynaliadwyedd am arweiniad a rhagor o fanylion am unrhyw ddeunydd sydd â chyfansoddiad anhysbys a/neu wedi'i halogi (estates-waste@abertawe.ac.uk)

Ni ddylid o dan unrhyw amgylchiadau;

(a) gwaredu ag unrhyw wastraff cyffredinol yn y bin ailgylchu oherwydd ei fod yn halogi'r ffrwd ailgylchu, gall achosi problemau yn y gadwyn gyflenwi ac nid yw'n cydymffurfio â rheoliadau gwahanu gwastraff.
(b) gwaredu â gwastraff cyfrinachol sydd heb ei rwygo yn y bin ailgylchu - gweler WGN05 am ragor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael

Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ynghylch yr hyn sy'n ailgylchadwy yn Atodiad 3 - Casgliad deunyddiau gwastraff ar wahân i'w hailgylchu: Côd Ymarfer ar gyfer Cymru

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau mewnol

Defnyddir biniau pedwarplyg a dwbl ar gyfer gwaredu â phapur/cardbord. Bydd gan yr holl finiau label "papur a chardbord" a bag bin clir. **Ni ddylai blychau personol/dan y ddesg gael eu defnyddio mewn swyddfeydd oherwydd eu bod yn atal ailgylchu deunyddiau.**

Ni ddylai cwpanau coffi neu unrhyw hylif gael ei roi yn rhan 'papur' y biniau pedwarplyg/dwbl dan unrhyw amgylchiadau.

Gall bocsys cardbord mawr gael eu casglu i'w hailgylchu drwy gyflwyno cais am waith drwy Ddesg Gymorth Ystadau neu drwy fynd â nhw i'r storfeydd biniau gwastraff allanol.



Ffigur 1 - Biniau dwbl mewnol Prifysgol Abertawe

### Storio Allanol

Mae biniau pedwarplyg a dwbl ar gyfer gwaredu â phapur a chardbord. Bydd yr holl finiau wedi'u labelu fel "papur a chardbord". Ni ddylid defnyddio biniau eraill ar gyfer eitemau rhydd.




Ffigur 2 - Biniau allanol "pedwarplyg" Prifysgol Abertawe a bin allanol contractwr 1100L Ewro

Bydd y bagiau bin clir sy'n cael eu casglu'n cael eu rhoi yn y biniau priodol mwy (a ddarperir gan y contractwr rheoli gwastraff), sydd wedi'u lleoli mewn storfeydd ar draws ystadau'r Brifysgol.

## Lleoliadau a Gwybodaeth am Storfeydd Gwastraff Allanol

**Campws y Bae:**

- Iard Wasanaeth
- Llyfrgell y Bae
- Y Twyni
- Adeilad Gogleddol Peirianneg

**Campws Singleton:**

- Keir Hardie*
- Llyfrgell a Chanolfan Gwybodaeth
- Tŵr Faraday*
- Talbot
- Grove*
- Tŷ'r Undeb
- Preseli*
- Langland*
- ILS1*
- Llŷr

*Mae'r biniau allanol Ewro 1100L ar gyfer y storfeydd hyn bellach yn cael eu storio mewn unedau dan glo sydd wedi'u gorchuddio:



Ffigur 3 - Campws Singleton: Storfeydd biniau Ewro 1100L allanol wedi'u gorchuddio

Os oes angen, gellir darparu'r côd mynediad ar gyfer y storfeydd hyn ar gais drwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

Adroddwch am unrhyw ddifrod i'r storfeydd neu broblemau mynediad cyn gynted â phosibl drwy **Ddesg Gymorth Ystadau**

## Cost Gwaredu

Mae cost casglu ac ailgylchu'n cael ei chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli Gwastraff Prifysgol Abertawe; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol Fodd bynnag, gall unigolion leihau'r gost a chyfrannu at darged cynaliadwyedd y Brifysgol i wireddu cyfradd o **75%** o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd EfW neu dirlenwi drwy sicrhau eu bod yn cael gwared â'r holl bapurau a chardbord sy'n addas i'w hailgylchu yn y biniau penodol, gan leihau effaith amgylcheddol a chefnogi'r economi gylchol.

**Labelu**

Gweler y templed

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**


paper & cardboard
papur a chardbord